

ARGYMHELLION PWYLLGOR MWYNDERAU
NOS IAU 19^{eg} HYDREF 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:
Cynghorwyr:
Mel Goch ap Meirion
Bedwyr Gwilym
Will G Roberts
Glyn Daniels
Annwen Daniels

Ymddiheuriad:
Cynghorydd:
Erwyn Jones
Mark Thomas

DATGAN DIDDORDEB

Cynghorydd Annwen Daniels, Caffi'r Parc

Ethol Cadeirydd i'r Cyfarfod

Yn absenoldeb y Cynghorydd Erwyn Jones etholwyd y Cynghorydd Will G Roberts i gadeirio'r Cyfarfod

1. Adroddiad Caeau Chwarae

Bu i'r Pwyllgor drafod adroddiadau misol y caeau chwarae

Argymell: I dderbyn yr adroddiadau

2. Adroddiad RoSPA

Bu i'r Pwyllgor drafod yn fanwl adroddiadau RoSPA ynglŷn â'r caeau chwarae. Mae angen man waith ar y caeau e.e. golchi'r matiau diogelwch ond nid oedd unrhyw nam difrifol ar unrhyw gae.

Argymell: I dderbyn yr adroddiadau ac i drefnu bod y man gwaith angenrheidiol yn cael ei wneud ar y caeau chwarae.

3. Cae Gild

Mae'r Cyngor Tref yn derbyn mwy o gwynion ynglŷn â chyflwr y cae yma na'r gweddill gyda'i gilydd a'r cwynion i gyd ynglŷn â baw ci ar y cae. Mae giât mochyn ar fynedfa'r cae felly mae'n amlwg bod cwn yn cael eu gadael yn fwriadol ar y cae. Mae yn drosedd i adael i gi fynd ar gae chwarae plant.

Argymell: I osod camera symudol ar y cae er mwyn ceisio dal y rhai sydd yn mynd a'u cwn ar y cae yma.

4. Cwrs Golf

Prin iawn yw'r defnydd a wneir o'r cwrs golff gwirion yn y Parc.

Argymell: I geisio cael gwell trefn ar y cwrs golf erbyn blwyddyn nesaf.

5. Caffi'r Parc

Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960

Yn unol â Deddf Mynediad i Gyfarfodydd Cyrff Cyhoeddus - Deddf

Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (1985) Atodlen 12A, rhannau 1.1 a 4.14, mae'r cyhoedd a'r wasg felly wedi'u heithrio o'r rhan hon o'r cyfarfod.

FE AETH Y CYFARFOD YN GAEEDIG I'R CYHOEDD A'R WASG

DATGAN DIDDORDEB

Cynghorydd Annwen Daniels a gadawodd y Siambwr yn ystod y drafodaeth

Argymell: Yn dilyn trafodaeth i ddiddymu'r brydles.

AGORWYD Y CYFARFOD I'R CYHOEDD A'R WASG

6. Coed Afalau

Rhai misoedd yn ôl bu i'r Cyngor Tref dderbyn y cynnig gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i gael 4 coeden afal am ddim. Mae hi'n amser derbyn y coed afal erbyn hyn ac mae'r Dref Werdd wedi cytuno i gyd weithio gyda'r Cyngor Tref i drefnu diwrnod plannu gyda phlant Ysgol Manod. Teimlir bod tir addas ar gael wrth ffin y cae chwarae yn y Manod. Mae Clwb Pêl Droed Amaturiaid y Blaenau yn barod wedi cytuno i gyd weithio i sicrhau llwyddiant i hyn.

Argymell: I dderbyn y wybodaeth a chytuno i brynu mwy o goed afal hyd at werth £100.

7. Goleuadau Nadolig

Mae trefniadau i gael caniatâd i osod ein goleuadau Nadolig yn symud ymlaen yn araf deg a gobeithir i'r caniatâd ddod drwodd yn ystod yr wythnosau nesaf.

Argymell: I dderbyn y wybodaeth

8. Parc Sglefrio

Yn ddiweddar bu i'r Cyngor Tref dalu i gael clirio'r traciau ceir modur oddi ar y Parc Sglefrio er mwyn gwneud lle i greu '4 Way Fun Box' yno.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â sut i gael defnyddwyr ifanc y Parc Sglefrio i gyd weithio gyda'r Cyngor Tref i ddylunio ac adeiladu'r '4 Way Fun Box'. Cytunodd y Cyngorydd Annwen Daniels i sgwrsio gyda'r rhai sydd yn defnyddio'r Parc Sglefrio a chytunodd y Cyngorydd Will G Roberts i gymryd cyfrifoldeb am ei adeiladu.

Cafwyd cais gan y Clwb Ieuenctid i ryddhau'r arian a godwyd gan bobl ifanc sydd yn defnyddio'r Parc Sglefrio i'r Clwb Ieuenctid.

Argymell: I symud ymlaen gyda'r '4 Way Fun Box' cyn gynted â modd er mwyn iddo fod ar gael i'w ddefnyddio erbyn y Gwanwyn. I ysgrifennu at y Clwb Ieuenctid yn egluro na all y Cyngor Tref ryddhau'r arian i'r Clwb Ieuenctid gan fod yr arian wedi ei godi gan ddefnyddwyr y Parc Sglefrio i'w wario ar offer newydd ar y Parc Sglefrio.

9. Grisiau i gefn Stryd Jones

Bu i'r Cyngor gael cais am wybodaeth parthed perchennog y grisiau sydd yn arwain o ffordd gefn Stryd Jones i Stryd Jones. Yn ôl y son mae'r grisiau yma mewn cyflwr perygl. Cafwyd gwybodaeth hefyd bod y grisiau sydd yn arwain i faes parcio Diffwys oddi wrth y Co-op mewn cyflwr perygl.

Argymell: I roi gwybodaeth i Gyngor Gwynedd bod y Cyngor Tref yn teimlo mai cyfrifoldeb Gyngor Gwynedd yw'r grisiau hyn gan eu bod yn arwain o ffordd gefn Stryd Jones i Stryd Jones. I ofyn i Gyngor Gwynedd drefnu i lanhau'r grisiau sydd yn arwain at faes parcio Diffwys.

10. Cais Cynllunio

Cais Cynllunio Rhif C17/0982/03/LL

Ymgeisydd J W Greaves

Chwarel Llechwedd

Blaenau Ffestiniog

Darparu 6 uned 'glamping' o fath saffari ynghyd a datblygiad atodol gan gynnwys gwaith peiranyddol

Dim Gwrthwynebiad

